

## Unigrwydd

**Darlleniad 1: Salm 23: 1-6**

**Darlleniad 2: Mathew 8: 18-20**

---

---

Diolchwn i ti, O! Dduw ein Tad, y gallwn ni nesáu atat ti bob amser gan gofio a chredu ein bod yn dod at un sy'n ein deall ni, ac yn gwybod popeth amdanom ni. Rwyd ti'n gwybod yn well na neb arall amdanom ni. Gwyddost am ein hofnau ac am ein teimladau. Gwyddom hefyd, ein Tad, dy fod ti nid yn unig yn ymwybodol ohonom, ond dy fod yn meddwl amdanom bob amser:

‘Yr Arglwydd a feddwl amdanaf  
A dyna fy nefoedd am byth.’

Dwyt ti ddim yn debyg o anghofio'r un o'th blant; ni sy'n anghofio. Deisyfwn dy gymorth i gofio ac i feddwl am yr unig a'r digalon yn ein cymdeithas. Sylweddolwn, O! Arglwydd, o hyd ac o hyd bod yna lawer o bobl unig yn ein byd, a'r unigrwydd hwnnw'n codi ofn arnynt. Pobl sy'n gorfod byw heb gwmni rhai oedd yn annwyl yn eu golwg, rhai oedd yn golygu popeth iddynt. Eraill yn gorfod wynebu profiadau anodd a newydd heb neb i wrando arnynt ac i fod yn gwmni iddynt.

Gweddiwn dros y rhai hynny mae'r hen aeaf yma wedi gadael ei ôl arnynt, y rheiny sy'n dlotach ar ei ddiwedd am nad yw rhai oedd yn annwyl iddynt gyda nhw bellach y gwanwyn hwn; y rhai sy'n teimlo rhyw wacter ac unigrwydd mawr yn eu bywydau.

Diolch i'th enw mawr bod yna un mwy o lawer na ni wedi bod yn unig droeon yn ystod ei fywyd. Bu Iesu'n unig yn yr anialwch am ddeugain niwrnod. Roedd yn unig ar ben y mynydd heb neb i gadw cwmni iddo. Cofiw'n hefyd i Iesu Grist fod yn sobor o unig ar ddydd Gwener y Groglith, wrth brofi unigrwydd ingol - ar y Groes. ‘Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael?’ Roedd ei eiriau'n dangos yn aml ei fod yn teimlo'n unig:

‘Y mae gan y llwynogod ffaeau a chan adar yr awyr nythod, ond gan Fab y Dyn nid oes lle i roi ei ben i lawr.’

Gan fod Iesu da wedi profi unigrwydd llethol ar sawl achlysur, mae’n medru ei uniaethu ei hun â’n holl unigrwydd ni. Yng nghanol unigrwydd ansicrwydd, unigrwydd afiechyd, unigrwydd henaint neu unrhyw unigrwydd arall a ddaw i’n rhan, diolchwn fod Iesu ei hun gyda ni i’w rannu:

‘Er i mi gerdded trwy ddyffryn tywyll du, nid ofnaf unrhyw niwed, oherwydd yr wyt ti gyda mi.’

Diolchwn o waelod calon, Arglwydd, am dy addewid i fod gyda ni bob amser, ac ym mhob profiad a ddaw i’n rhan. Yn sicr, y mae’r fath addewid, y fath eiriau, yn gysur i ni pan fyddwn yn teimlo’n unig ac yn ofnus. Felly, Arglwydd, dilea ein hunigrwydd drwy gynnig golwg newydd ar Iesu Grist, a thrwy adael i’w law sanctaidd ef gyffwrdd ein bywydau.

Gofynnwn i ti, O! Arglwydd, ein defnyddio ni i godi calon y digalon ac i fod yn gwmni i’r unig.

Gwrando ar ein gweddi yn enw Iesu Grist, ffrind a Gwardwr oesoedd di-ri. Amen.

*Eifion Jones*